*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod o'r Panel Gweithredol DDYDD LLUN 14 CHWEFROR 2022 dros Zoom. Dechreuir y cyfarfod am 10 o'r gloch y bore.**

Yn gywir

Colin Everett
Clerc

**AGENDA**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiad o Ddiddordebau**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**

   Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 18 Hydref 2021**

5. **Materion yn codi**

6. **COVID-19: Diweddariad (ar lafar)**

7. **Adolygiad Blynyddol o Gynllun Corfforaethol yr Awdurdod 2021-24**

8. **Monitro Perfformiad Ebrill 2021 – Rhagfyr 2021**

9. **Rheoli Risgiau Strategol**

10. **Canlyniadau'r Arolwg Staff "Teulu Tân (cyflwyniad)**

11. **Rhaglen Cysylltiadau Symudol y Gwasanaethau Brys (adroddiad ar lafar)**

12. **Materion Brys**

    Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 3 uchod.

**<u>RHAN II</u>**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Deddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

**Dim**

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **14 Chwefror 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Adolygiad Blynyddol o Gynllun Corfforaethol yr Awdurdod 2021-24** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1. Rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd a wneir tuag at lunio adolygiad drafft 2022/23 o Gynllun Corfforaethol yr Awdurdod 2021-24, er mwyn ei gymeradwyo yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod ym mis Mawrth 2022.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2. Bob mis Mawrth, mae'r Awdurdod yn cyhoeddi cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol, sy'n cadarnhau ei amcanion gwella a llesiant ac yn esbonio beth mae'n bwriadu ei wneud yn ystod y flwyddyn honno i symud yr Awdurdod yn nes at eu cyflawni.

3. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd yr Awdurdod Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-24 lle roedd yn nodi ei saith amcan gwella a llesiant, ynghyd â'r camau mae'n bwriadu eu cymryd yn ystod 2021/22.

4. Ym mis Hydref 2021, cadarnhaodd yr Aelodau eu bwriad i barhau i fynd ynglŷn â'r un amcanion yn 2022/23.

5. Ym mis Tachwedd 2021, bu'r Aelodau'n meddwl am rai heriau allweddol y tynnwyd sylw atynt drwy asesiad sefyllfaoedd y Prif Swyddog Tân newydd, a'r canlyniadau i gyllideb yr Awdurdod. Roedd y gyllideb refeniw a gymeradwywyd wedyn ym mis Rhagfyr 2021 yn cynnwys cynnydd o £1.13m er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hynny.

6. Erbyn hyn, mae'r swyddogion wrthi'n cwblhau eu cynlluniau adrannol ar gyfer 2022/23 er mwyn adlewyrchu amcanion hirdymor Awdurdod, ac roeddent wedi nodi heriau allweddol yn ogystal â gweithgarwch arall ym maes gwelliant a lleihau risg.

## ARGYMHELLIAD

7. Bod yr Aelodau'n nodi'r cynnydd a wneir tuag at lunio'r diwygiad yn 2022/23 o Gynllun Corfforaethol 2021-24 a gaiff ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn ym mis Mawrth 2022.

## CEFNDIR

8. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. At ddibenion prosesau cynllunio'r Awdurdod, caiff y rhain eu trin fel pe baent yr un rhai.

9. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i wneud gwaith datblygu cynaliadwy, sy'n gorfod cynnwys:

   a) gosod a chyhoeddi amcanion llesiant sy'n cael eu dylunio i sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf at gyflawni pob un o'r amcanion llesiant a osodwyd ar gyfer Cymru gyfan; a

   b) cymryd yr holl gamau rhesymol (wrth gyflawni ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny.

10. Nid yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn pennu pa mor aml y mae'n rhaid i'r Awdurdod newid ei amcanion, ond mae rhaid eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn ac ystyried i ba raddau:
    - mae'r amcanion yn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru;
    - mae'r amcanion yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy – h.y. eu bod yn helpu i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau; ac
    - mae'r Awdurdod yn cymryd pob cam rhesymol i gyflawni ei amcanion.

11. Yn y cylch cynllunio arferol, bydd yr Awdurdod yn cadarnhau'r amcanion cyfredol neu'n llunio amcanion newydd yn ystod yr hydref/gaeaf, ac yn cytuno ar ei gyllideb yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr. Yna, bydd yn cyhoeddi cynllun newydd neu ddiwygiedig yn ei gyfarfod ym mis Mawrth gan nodi pa gamau mae'n bwriadu eu cymryd yn y flwyddyn ariannol ganlynol wrth fynd ynglŷn â'i amcanion hirdymor.

12. Ym mis Mawrth 2020, roedd yr Awdurdod wedi cyhoeddi saith amcan llesiant hirdymor yn ei Gynllun Gwella a Llesiant ar gyfer 2020/21. Penderfynodd yr Aelodau ym mis Mawrth 2021 i gario'r amcanion hyn ymlaen i'w Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-24. Dyma'r amcanion:
    - **Amcan 1**: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl Gogledd Cymru.
    - **Amcan 2**: Parhau i weithio ar y cyd i helpu cymunedau i fod yn fwy cydnerth.
    - **Amcan 3**: Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

- **Amcan 4**: Parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid.
- **Amcan 5**: Cynnal gweithlu sy'n addas o gadarn, medrus, proffesiynol a hyblyg.
- **Amcan 6**: Datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd er mwyn lleihau'r effaith y mae ein gweithgarwch yn ei chael ar yr amgylchedd.
- **Amcan 7**: Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael.

**GWYBODAETH**

13. Er nad yw amcanion hirdymor yr Awdurdod wedi newid, mae'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn eu cyflawni yn siŵr o fod yn wahanol bob blwyddyn.

14. Gellir cyflawni rhai camau arfaethedig o fewn un flwyddyn ond bydd angen addasu rhai eraill a'u cario drosodd i gynlluniau blynyddoedd canlynol. Felly hefyd, bydd angen i gamau newydd a gynllunnir adlewyrchu'r sefyllfa ar y pryd ond heb golli golwg ar yr amcanion hirdymor.

15. Mae gwaith a wnaethpwyd ers i'r Prif Swyddog Tân newydd ddechrau yn ei swydd ar 1 Gorffennaf 2021 wedi egluro rhai heriau allweddol i'r Awdurdod wrth iddo symud i mewn i flwyddyn ariannol 2022/23. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:
    - sicrhau bod digon o griwiau tân ar-alwad ar gael;
    - sicrhau bod digon o adnoddau i gynnal a datblygu sgiliau diffoddwyr tân;
    - cael digon o gapasiti corfforaethol i gwrdd â'r galw yn y presennol a'r dyfodol.

    Mae cyllideb refeniw'r Awdurdod ar gyfer 2022/23, a gymeradwywyd yn Rhagfyr 2021, yn cynnwys £1.13m yn ychwanegol i fynd i'r afael â'r heriau.

16. Hefyd, mae adroddiadau diweddar gan Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at welliannau i'r Awdurdod eu hystyried, sy'n cynnwys:
    - mabwysiadu dull strategol mwy integredig i gynnwys eraill y tu allan i'r Gwasanaeth i gyd-lunio a siapio'r gwasanaethau a ddarperir ganddo;
    - adolygu pa mor effeithiol yw ei drefniadau llywodraethu mewn perthynas â chraffu, atebolrwydd a chanolbwyntio ar risgiau allweddol;
    - cynllunio olyniaeth o fewn y Gwasanaeth;
    - herio ei ragdybiaethau ar leoliadau gorsafoedd tân er mwyn gwneud yn siŵr fod yr Awdurdod yn parhau'n gadarn a'i fod mewn sefyllfa dda i ymgymryd â chyfrifoldebau ehangach yn y dyfodol; a

- datblygu llinell sylfaen ar gyfer carbon, ynghyd â chynllun ar gyfer lleihau carbon er mwyn cyrraedd statws carbon-sero erbyn dyddiad targed Llywodraeth Cymru yn 2030.

17. Felly, bydd angen i'r adolygiad blynyddol, a gynhelir gan yr Awdurdod yn 2022/23 o'i Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-24 wneud y canlynol:
    - cadarnhau amcanion gwella a llesiant hirdymor yr Awdurdod;
    - amlinellu pa gamau sydd wedi'u cynllunio i'w cyflawni neu eu symud ymlaen gan yr Awdurdod yn 2022/23;
    - adlewyrchu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod, gan gynnwys y tri a gafodd eu hegluro drwy asesiad sefyllfaol y Prif Swyddog Tân;
    - ystyried canfyddiadau ac argymhellion Archwilio Cymru;
    - ystyried gwaith sy'n mynd ymlaen gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn enwedig pan fo amcanion yn cyd-fynd â chynlluniau'r Awdurdod ei hun;
    - sicrhau ei fod yn barod ar gyfer unrhyw newidiadau yn y dyfodol, yn deillio o Fframwaith Cenedlaethol a gaiff ei ddiweddaru ac unrhyw argymhellion ychwanegol gan swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
    - bod yn gyson â chyllideb refeniw, cynllun cyfalaf a chynlluniau ariannol tymor canolig yr Awdurdod.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Cynllun yn cadarnhau amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod, ac yn esbonio beth mae'n bwriadu ei wneud tuag at eu cyflawni. |
| Cyllideb | Mae'r cyllidebau cyfalaf a refeniw y mae'r Awdurdod wedi cytuno arnyn nhw ar gyfer 2022/23 yn adlewyrchu'r camau a gaiff eu cymryd yn ystod y flwyddyn honno tuag at gyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod. |
| Cyfreithiol | Mae'n cefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cynllunio ar gyfer gwella a deddfwriaeth ar gyfer llesiant. |
| Staffio | Nid oes effaith yn hysbys ar lefelau staffio ar hyn o bryd. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Caiff effaith y camau penodol ar yr agweddau hyn eu hasesu ar adeg briodol yn y gwaith o'u datblygu. |
| Risgiau | Mae'n lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â chydymffurfio ac o fethu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **14 Chwefror 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol (0330 3132683)** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad Ebrill 2021 – Rhagfyr 2021** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybodaeth am weithgarwch digwyddiadau'r Gwasanaeth yn ystod naw mis cyntaf blwyddyn ariannol 2021/22; ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant, a gweithgarwch digwyddiadau eraill o bwys.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhwng Ebrill a Rhagfyr 2021, aeth y Gwasanaeth at:

- 3,991 o ddigwyddiadau brys. Roedd y 10.6% o gynnydd yn y gweithgarwch o'i gymharu â'r un misoedd yn 2020 wedi cael ei yrru'n bennaf gan 68.9% o gynnydd yn yr adegau yr aethpwyd at argyfyngau nad oeddent yn danau;
- 314 o danau damweiniol mewn cartrefi pryd roedd 30 o bobl wedi cael mân anafiadau, pedwar o bobl wedi cael anafiadau difrifol, a thri pherson wedi colli eu bywydau;
- 22 o danau yng Ngharchar EM Berwyn, o gymharu â 32 yn yr un misoedd yn 2020;
- 155 o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, 51 ohonynt angen criwiau i ryddhau neu dorri pobl allan o gerbydau;
- 1,887 o alwadau diangen, a oedd yn cynnwys 15.5% o gynnydd yn nifer yr adegau yr aethpwyd at alwadau diangen oherwydd systemau larwm tân awtomatig.

3 Yn ystod y cyfnod, roedd y Gwasanaeth hefyd wedi cynnal 9,906 o Archwiliadau Diogel ac Iach, sef 960 yn fwy nag yn yr un cyfnod yn 2020.

**ARGYMHELLIAD**

4 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**GWYBODAETH**

5 **Yr holl ddigwyddiadau**

Aeth y Gwasanaeth at gyfanswm cyfunol o 3,991 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen yn ystod y cyfnod – sef 10.6% yn fwy nag yn yr un cyfnod yn 2020/21. O fewn y cyfanswm hwn, roedd 91.4% o gynnydd yn nifer yr adegau yr aethpwyd at wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, a 63.5% o gynnydd yn nifer yr adegau yr aethpwyd at fathau eraill o argyfyngau nad oeddent yn danau.

6 **Tanau**

Aeth y Gwasanaeth at 1,403 o danau o gymharu â 1,410 yn yr un misoedd yn 2020. Roedd hyn yn cynnwys 680 o brif danau (49 yn fwy), 648 o danau eilaidd (43 yn llai), a 75 o danau simnai (13 yn llai).

7 **Galwadau diangen**

Aeth y Gwasanaeth hefyd at 1,887 o alwadau diangen – sef 104 yn fwy nag yn yr un misoedd yn 2020. Roedd y rhai a oedd yn deillio o systemau larymau tân awtomatig wedi cynyddu 142 (o 917 i 1,059), gyda'r prif gyfraniadau'n rhai o fflatiau/maisonettes pwrpasol a oedd wedi cynyddu 64 (o 226 i 290), ac o fyngalos/tai un-feddianaeth a oedd wedi cynyddu 42 (o 193 i 235).

8 **Digwyddiadau gwasanaeth arbennig**

Roedd y cynnydd yn yr adegau yr aethpwyd at ddigwyddiadau brys nad oeddent yn danau - o 415 i 701 - yn cynnwys 155 o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, ac roedd 76 o'r rheini'n cynnwys sicrhau bod cerbyd neu safle yn ddiogel (yn unig) a 51 yn cynnwys torri pobl allan/rhyddhau. Gan gadw mewn cof y ffaith fod maint y traffig wedi gostwng yn 2020 oherwydd rheoliadau cyfnod clo, nid oedd y cynnydd yn nifer yr adegau yr aethpwyd at wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn 2021 yn annisgwyl, ac mae'n dod â'r cyfanswm yn ôl i fyny i'r lefelau cyn y pandemig.

O ran digwyddiadau gwasanaeth arbennig eraill, cafwyd cynnydd sydyn o 212 yn nifer yr adegau yr aethpwyd allan (sef o 334 i 546) gan fod y Gwasanaeth wedi mabwysiadu dull newydd er mwyn ei wneud ei hun yn fwy gweladwy yn y gymuned. Y prif gyfraniadau oedd 'cael mynediad' (45 i 77); cynorthwyo asiantaethau eraill (30 i 66); rhyddhau pobl o lifftiau (29 i 54); achubiadau eraill/rhyddhau pobl (24 i 43); gwneud lleoliadau'n ddiogel heblaw mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd (4 i 41); a gwahanu pobl oddi wrth wrthrychau (23 i 53).

9 **Tanau damweiniol mewn cartrefi**

Aeth y Gwasanaeth at 314 o danau damweiniol mewn cartrefi, sef 31 yn fwy nag yn y tri chwarter cyntaf o 2020/21. Roedd y tanau hyn wedi arwain at 30 o bobl yn cael mân anafiadau, pedwar yn cael anafiadau difrifol a thri o bobl yn colli eu bywydau (bydd nifer terfynol y marwolaethau'n ddibynnol ar ddedfrydau'r crwner). Y prif gyfraniad at y cynnydd yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y cyfnod adrodd oedd tanau coginio yn gysylltiedig â sosbenni saim/ffriwyr saim

dwfn (10 i 25) a digwyddiadau eraill yn gysylltiedig â choginio (58 i 68), gyda 'rhywbeth yn tynnu sylw' yn brif ffactor dynol yn gysylltiedig â'r cynnydd.

10 **Archwiliadau Diogel ac Iach**

Roedd y Gwasanaeth wedi cynnal 9,906 o Archwiliadau Diogel ac Iach rhwng Ebrill a Rhagfyr 2021, o gymharu ag 8,946 yn yr un misoedd yn 2020. Roedd nifer yr archwiliadau â blaenoriaeth uchel wedi cynyddu i 4,343, ac roedd 2,360 (54.3%) o'r rheini'n ymateb i atgyfeiriadau sy'n asiantaethau sy'n bartneriaid i ni.

11 **Larymau mwg/gwres**

Yn 274 (87.3%) o'r 314 o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y cyfnod adrodd, roedd o leiaf un larwm mwg/gwres wedi'i osod ar y safle.

Yn 281, (89.5%) o'r tanau damweiniol mewn cartrefi, roedd y tân wedi'i gyfyngu i'r ystafell lle bu iddo gychwyn neu lle roedd yr eitem wedi mynd ar dân yn gyntaf, neu lle cafwyd difrod oherwydd gwres/mwg yn unig.

Yn 249, (79.3%) o'r tanau damweiniol mewn cartrefi, roedd cyfuniad o'r ddau – roedd o leiaf un larwm mwg/gwres yno, ac roedd y tân wedi'i gyfyngu i'r ystafell lle bu iddo gychwyn/lle roedd yr eitem wedi mynd ar dân yn gyntaf neu wedi achosi difrod oherwydd gwres/mwg yn unig.

Yn ystod yr un naw mis dros y pedair blynedd ddiwethaf, cafwyd cynnydd graddol yng nghanran y tanau damweiniol mewn cartrefi lle roedd larwm mwg/gwres wedi seinio ac wedi rhoi rhybudd, sef cynnydd o 41.4% yn 2018 i 49.4% yn 2021.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n gymorth i'r Awdurdod fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Corfforaethol 2021-24. |
| Cyllideb | Mae'n gymorth i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posibl ar y gyllideb oherwydd gweithgarwch digwyddiadau annisgwyl. |
| Cyfreithiol | Mae'n gymorth i'r Awdurdod sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Byddai peidio â bodloni'r gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch perfformiad a'i fonitro yn gallu effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

## Am y naw mis

## Ebrill – Rhagfyr 2021


**Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallent fod yn agored i'w newid.**

**CYNNWYS**


| ADRODD YNGHYLCH GWAITH DIGWYDDIADAU | |
|---|---|
| | |
| **YR HOLL DDIGWYDDIADAU** | |
| Golwg gyffredinol ar yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | 1 |
| | |
| **TANAU YN ÔL CATEGORI** | |
| Tanau yn ôl categori a chymhelliad | 2 |
| Tanau yn ôl y math o eiddo a chymhelliad | 3 |
| | |
| **GALWADAU DIANGEN** | |
| Galwadau diangen yn ôl categori | 4 |
| | |
| **DIGWYDDIADAU GWASANAETH ARBENNIG** | |
| Digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ôl categori | 5 |
| Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Thorri Pobl Allan/Rhyddhau | 6 |
| | |
| **MONITRO MEWN PERTHYNAS AG AMCAN 1- GWEITHIO TUAG AT WNEUD GWELLIANNAU I IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT POBL YNG NGHYMRU** | |
| Tanau damweiniol mewn cartref | 7 |
| Marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 8 |
| Archwiliadau Diogel ac Iach | 9 |
| Gweithrediad larymau mwg mewn tanau damweiniol mewn cartrefi | 10 |
| | |
| **GEIRFA** | |
| Geirfa | 11 |

## 1.0 Yr Holl Ddigwyddiadau

1.1 Yn ystod tri chwarter cyntaf 2021/22, aeth y Gwasanaeth at 3,991 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen, sef cynnydd o 10.6% o gymharu â'r un cyfnod yn 2020/21.





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | 2021-22 | 1,322 | 1,415 | 1,254 | | 3,991 | ↑ 10.6% | 3,852 | ↑ 3.6% |
| | 2020-21 | 1,378 | 1,232 | 998 | | 3,608 | | | |
| Yr holl danau | 2021-22 | 575 | 480 | 348 | | 1,403 | ↓ 0.5% | 1,585 | ↓ 11.5% |
| | 2020-21 | 653 | 433 | 324 | | 1,410 | | | |
| Yr holl ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig | 2021-22 | 152 | 233 | 316 | | 701 | ↑ 68.9% | 502 | ↑ 39.7% |
| | 2020-21 | 96 | 182 | 137 | | 415 | | | |
| Yr holl alwadau diangen | 2021-22 | 595 | 702 | 590 | | 1,887 | ↑ 5.8% | 1,765 | ↑ 6.9% |
| | 2020-21 | 629 | 617 | 537 | | 1,783 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 2.0 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliad

2.1 **Prif danau –** Cafwyd 7.8% o gynnydd yn nifer y prif danau, sef i 680 o 631 yn ystod Ebrill i Ragfyr 2020/21.

2.2 **Tanau eilaidd -** Cafwyd gostyngiad yn nifer gyffredinol y tanau eilaidd yr aethpwyd atynt o gymharu â'r un cyfnod yn 2020/21, gan ostwng o 691 i 648 (6.2%).





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif danau | 2021-22 | 251 | 229 | 200 | | 680 | ↑ 7.8% | 702 | ↓ 3.1% |
| | 2020-21 | 224 | 217 | 190 | | 631 | | | |
| Tanau eilaidd | 2021-22 | 293 | 244 | 111 | | 648 | ↓ 6.2% | 796 | ↓ 18.6% |
| | 2020-21 | 394 | 202 | 95 | | 691 | | | |
| Tanau simnai | 2021-22 | 31 | 7 | 37 | | 75 | ↓ 14.8% | 87 | ↓ 13.8% |
| | 2020-21 | 35 | 14 | 39 | | 88 | | | |

*Mae'r tabl ar y dde yn dangos cyfartaledd y cyfnod cymharol yn y 3 blynedd flaenorol gyda'r newid yn y ganran. *Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 3.0 Prif Danau, yn ôl Math o Eiddo a Chymhelliad

3.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd 45 o brif danau wedi cael eu cynnau'n fwriadol mewn adeiladau amhreswyl, o gymharu â 49 yn ystod yr un cyfnod yn 2020/21.

3.2 Yng Ngharchar EM Berwyn, roedd 22 o danau bwriadol wedi digwydd o gymharu â 32 yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl brif danau bwriadol | 2021-22 | 40 | 42 | 31 | | 113 | ↓ 7.4% | 162 | ↓ 30.4% |
| | 2020-21 | 41 | 47 | 34 | | 122 | | | |
| Yr holl brif danau dam-weiniol | 2021-22 | 211 | 187 | 169 | | 567 | ↑ 11.4% | 540 | ↑ 5.0% |
| | 2020-21 | 183 | 170 | 156 | | 509 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 4.0 Galwadau Diangen

4.1 Yn nhri chwarter cyntaf 2021/22, cafwyd 1,887 o alwadau diangen, sef 5.8% o gynnydd o'r 1,783 a gafwyd yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Cafwyd 15.5% o gynnydd yn nifer y galwadau gan larymau tân awtomatig, sef o 917 i 1,059. Roedd nifer y galwadau diangen didwyll wedi gostwng o 834 i 798 (4.3%).





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl alwadau diangen | 2021-22 | 595 | 702 | 590 | | 1,887 | ↑ 5.8% | 1,765 | ↑ 6.9% |
| | 2020-21 | 629 | 617 | 537 | | 1,783 | | | |
| Larwm Tân Awtomatig | 2021-22 | 311 | 403 | 345 | | 1,059 | ↑ 15.5% | 913 | ↑ 16.0% |
| | 2020-21 | 282 | 331 | 304 | | 917 | | | |
| Galwadau diangen didwyll | 2021-22 | 278 | 287 | 233 | | 798 | ↓ 4.3% | 820 | ↓ 2.7% |
| | 2020-21 | 330 | 285 | 219 | | 834 | | | |
| Maleisus | 2021-22 | 6 | 12 | 12 | | 30 | ↓ 6.3% | 31 | ↓ 3.2% |
| | 2020-21 | 17 | 1 | 14 | | 32 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 5.0 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig

5.1 Roedd nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig wedi codi 68.9% i 701 yn ystod y cyfnod adrodd, o gymharu â 415 yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd wedi codi 91.4%, sef o 81 i 155, tra roedd digwyddiadau 'Heblaw gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd' wedi codi 63.5%, sef o 334 i 546.





| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Heblaw gwrthdrawiadau (ac eithrio prosiectau) | 721 | 121 | 0 | 0 | 0 |
| Prosiectau cyfredol (Ar goll o gartref, Dull Mynediad) | 349 | 259 | 285 | 278 | 457 |
| Prosiectau blaenorol (Tîm Cymorth Cymunedol, Cyd-ymateb) | 159 | 163 | 144 | 81 | 155 |
| GRFfs | 19 | 60 | 58 | 56 | 89 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig | 2021-22 | 152 | 233 | 316 | | 71 | ↑ 68.9% | 502 | ↑ 39.6% |
| | 2020-21 | 96 | 182 | 137 | | 415 | | | |
| Gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd | 2021-22 | 31 | 56 | 68 | | 155 | ↑ 91.4% | 129 | ↑ 20.2% |
| | 2020-21 | 17 | 32 | 32 | | 81 | | | |
| Heblaw gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd | 2021-22 | 121 | 177 | 248 | | 546 | ↑ 63.5% | 372 | ↑ 46.8% |
| | 2020-21 | 79 | 150 | 105 | | 334 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 6.0 Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Thorri Pobl Allan/Rhyddhau

6.1 Allan o'r 155 o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr aethpwyd atynt yn nhri chwarter cyntaf 2021/22, roedd 32.9% yn rhai lle roedd y Gwasanaeth wedi defnyddio cyfarpar i dorri o leiaf un person allan o'r cerbyd ac roedd 51 wedi arwain at anafiadau, er mai dim ond mân anafiadau gafodd y rhan fwyaf o'r bobl a anafwyd.




| | |
|---|---|
| **155** | o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd |
| **76** | o ddigwyddiadau lle roedd pobl wedi cael anaf |
| **51** | o ddigwyddiadau lle bu'n rhaid torri pobl allan / rhyddhau |


| **Difrifoldeb yr Anaf *** | **Nifer y bobl** |
|---|---|
| Archwiliad rhagofalus | 7 |
| Cymorth Cyntaf | 11 |
| Mân Anafiadau | 56 |
| Anafiadau difrifol | 39 |
| Anafiadau | 11 |

**Pan fo anafiadau oherwydd gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ar gael, caiff y rhain eu cofnodi yn yr IRS yn yr un categori ag anafiadau tân*

## 7.0 Amcan 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru - *cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd.*

### 7.1 Tanau damweiniol mewn cartrefi

Aeth y Gwasanaeth at 314 o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod tri chwarter cyntaf 2021/22 - sef 31 yn fwy nag yn nhri chwarter cyntaf 2020/21 ac 18.5% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd, sef 265.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 2021-22 | 113 | 95 | 106 | | 314 | ↑ 11.0% | 265 | ↑ 18.5% |
| | 2020-21 | 104 | 83 | 96 | | 283 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 8.0 Marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi


8.1 Cafwyd un yn llai o farwolaethau a dau yn fwy o anafiadau difrifol mewn tanau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y cyfnod Ebrill i Ragfyr 2021/22, o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Roedd nifer y mân anafiadau 11 yn fwy nag yn ystod yr un cyfnod yn 2020/21, tra roedd nifer yr archwiliadau rhagofalus a nifer y bobl a oedd angen cymorth cyntaf yn y fan a'r lle wedi codi o 23 i 27 ac o 21 i 35 yn eu trefn.

| **Difrifoldeb yr anaf** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwiliad Rhagofalus | 24 | 10 | 14 | 23 | 27 |
| Cymorth Cyntaf | 20 | 17 | 32 | 21 | 35 |
| Mân Anafiadau | 35 | 11 | 20 | 19 | 30 |
| Anafiadau Difrifol | 2 | 2 | 3 | 2 | 4 |
| Marwolaeth | 1 | 5 | 3 | 4 | 3 |
| **Cyfanswm** | **82** | **45** | **72** | **69** | **99** |

| **Categori** | **Blwydd-yn** | **Ch.1** | **Ch.2** | **Ch.3** | **Ch.4** | **Cyfan-swm y cyfnod hyd yma** | **Newid** | **Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2021-22 | 43 | 23 | 30 | | 96 | ↑ 31 | 58 | ↑ 38 |
| | 2020-21 | 26 | 15 | 24 | | 65 | | | |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2021-22 | 3 | 0 | 0 | | 3 | ↓ 1 | | |
| | 2020-21 | 3 | 0 | 1 | | 4 | | | |

## 9.0 Archwiliadau Diogel ac Iach

9.1 Roedd y Gwasanaeth wedi cynnal 9,906 o Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod y cyfnod adrodd, ac roedd 3,574 (36%) o'r rheini wedi cael eu cynnal i ymateb i atgyfeiriad gan asiantaeth sy'n bartner i ni.





| Categori | Blwydd-yn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | 3 chyfnod cymharol blaenorol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % o'r holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd ac a oedd wedi dod drwy atgyfeiriad gan sefydliad sy'n bartner inni | 2021-22 | 40% | 35% | 35% | | 36% | ↑ 2pp | 30% | ↑ 6pp |
| | 2020-21 | 30% | 37% | 36% | | 34% | | | |

* Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 10.0 Larymau Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

10.1 Roedd larymau mwg/gwres yn bresennol yn y rhan fwyaf o danau damweiniol mewn cartrefi, er nad oedd pob un wedi seinio; yn 40 o'r tanau damweiniol mewn cartrefi, nid oedd larwm mwg yn bresennol.

10.2 O'r 314 o danau damweiniol mewn cartrefi, roedd 281 ohonynt wedi'u cyfyngu i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn, lle roedd yr eitem wedi mynd ar dân yn gyntaf, neu lle cafwyd difrod oherwydd gwres/mwg yn unig.




| Categori | Blwydd-yn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Larwm mwg yno ac wedi seinio a rhoi rhybudd | 2021-22 | 54 | 46 | 55 | | 155 | ↑ 15.7% | 120 | ↑ 29.2% |
| | 2020-21 | 48 | 36 | 50 | | 134 | | | |
| Larwm mwg yno, wedi seinio ond heb roi rhybudd | 2021-22 | 20 | 20 | 16 | | 56 | ↑ 21.7% | 49 | ↑ 14.3% |
| | 2020-21 | 18 | 15 | 13 | | 46 | | | |
| Larwm mwg heb seinio | 2021-22 | 26 | 16 | 21 | | 63 | → 0% | 60 | ↑ 5% |
| | 2020-21 | 22 | 21 | 20 | | 63 | | | |
| Larwm mwg ddim yno | 2021-22 | 13 | 13 | 14 | | 40 | → 0% | 36 | ↑ 11.1% |
| | 2020-21 | 16 | 11 | 13 | | 40 | | | |

* Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn cael ei roi o fewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simnai, ac sy'n digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, cyfarpar a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli ayyb.<br><br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion yno, os oes angen achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pump neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br><br>Fel arfer, tanau eilaidd yw tanau sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif danau), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau Simnai | Dyma danau mewn adeiladau sydd wedi'u meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br><br>Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br><br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>ch) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br><br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – larymau tân awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fod larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **14 Chwefror 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Rheoli Risgiau Strategol** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1. Rhoi crynodeb o gofrestr risgiau strategol yr Awdurdod yn unol â'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2. Drwy adolygu'n rheolaidd, canfyddir bod nifer o risgiau'n rhai a allai atal yr Awdurdod rhag cyflawni'r canlyniadau y mae wedi'u cynllunio a/neu rhag cyflawni ei swyddogaethau craidd. O blith yr amrediad llawn o risgiau, mae'r rhai sy'n cael eu hystyried i fod y rhai uchaf yn ymwneud â lefel cadernid yr Awdurdod tuag at naill ai ymosodiad ar ei systemau cyfrifiadurol neu golli'n sydyn aelod o staff sydd â gwybodaeth arbenigol a/neu brofiad o fusnes yr Awdurdod. Hyd yn oed drwy gynllunio gwrth-fesurau, mae'r rhain yn debygol o barhau i fod ar lefel risg Uchel.

## ARGYMHELLION

3. Bod yr Aelodau'n nodi'r risgiau strategol y canfuwyd eu bod yn wynebu'r Awdurdod.

## CEFNDIR

4. Mae'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod yn diffinio risg strategol fel "digwyddiad a fyddai'n effeithio ar y gallu i wireddu canlyniadau y mae'r Awdurdod wedi'u cynllunio a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd".

5. Mae Cofrestr Risgiau Strategol yr Awdurdod yn rhestru risgiau hysbys a allai atal yr Awdurdod rhag cyflawni ei ganlyniadau arfaethedig a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd. Mae cofnodion y gofrestr yn cael sgoriau risg sy'n cael eu hailwerthuso'n rheolaidd gan y swyddogion i adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol a'r effaith a ragwelir o ganlyniad i gynllunio gwrth-fesurau.

6. Dan y polisi hwn, mae'r Panel Gweithredol yn cael adroddiad cryno ar y risgiau strategol, a hynny o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Rhwng yr adegau hynny, mae Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn gallu gweld manylion llawn y gofrestr gyda'r swyddogion.

7. Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn cofnodi'r lefelau risg presennol a'r lefelau risg ar gyfer y dyfodol (yn seiliedig ar ragdybiaeth y bydd y gwrthfesurau a gynlluniwyd wedi cael yr effaith a obeithiwyd).

8. Mae'r lefelau risg yn seiliedig ar werthuso'r tebygolrwydd y gallai rhywbeth ddigwydd, a beth fyddai'r canlyniad petai hynny'n digwydd. Darperir disgrifiadau yn Atodiad 1 er gwybodaeth.

**GWYBODAETH**

9. Mae'r swyddogion yn parhau i adolygu a diweddaru'r gofrestr risgiau, gan ychwanegu, dileu ac ail-sgorio risgiau fel y bo'n briodol. Rhoddir crynodeb o gofnodion presennol y gofrestr yn Atodiad 2.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cynnal y gofrestr a chymryd camau i reoli risg yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd amcanion llesiant yr Awdurdod yn cael eu cyflawni. |
| Cyllideb | Mae cynnal y gofrestr yn gymorth i flaenoriaethu penderfyniadau ynglŷn â gwariant a fyddai'n gostwng lefelau risg. |
| Cyfreithiol | Mae cynnal y gofrestr yn gymorth i sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â deddfau sy'n diffinio ei swyddogaethau a'r ffordd y mae'n gweithredu. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Risgiau | Gallai rhyddhau'r gofrestr drwy ddamwain olygu bod yr Awdurdod yn agored i niwed. |

**Atodiad 1**

## Dadansoddi Risgiau

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TEBYGOL-RWYDD** | 5 Bron yn sicr | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 |
| | 4 Tebygol | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 |
| | 3 Posibl | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 |
| | 2 Annhebygol | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 |
| | 1 Annhebygol iawn | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| | | 1 Dibwys | 2 Mân | 3 Cymhedrol | 4 Arwyddocaol | 5 Mawr |
| | | **CANLYNIAD** | | | | |


## Graddfa blaenoriaethau risg

| Gwerth | Graddfa blaenoriaeth |
|---|---|
| 20-25 | Uchel iawn - risg yn annioddefol o uchel |
| 12-16 | Uchel - risg yn sylweddol |
| 8-10 | Canolig-uchel - risg yn gymedrol |
| 4-6 | Canolig-isel - risg ddim yn rhy ddrwg |
| 1-3 | Isel |

**Atodiad 2**

**Cofrestr Risgiau Strategol**

I. Mae'r siart isod yn dangos y lefelau presennol a'r lefelau yn y dyfodol o ran y risgiau strategol y canfuwyd eu bod yn wynebu'r Awdurdod fel yr oedd pethau yn Chwefror 2022.




II. <u>Risgiau Uchel Iawn x 3</u>
Canfuwyd bod tair risg yn golygu risg Uchel Iawn i'r Awdurdod. Drwy gynllunio gwrthfesurau, rhagwelir y bydd y rhain yn gostwng i risg lefel Uchel.

| Risg | Gwrthfesurau |
|---|---|
| Ymosodiad ar systemau cyfrifiadurol y Gwasanaeth. | • cyflwynwyd meddalwedd ychwanegol ar gyfer seiber-ddiogeledd yn 2021;<br>• cynhaliwyd adolygiad o seiber-ddiogeledd, a rhoddwyd camau ar waith;<br>• cynhaliwyd gwiriad iechyd TGCh yn Ebrill 2021;<br>• cafwyd canllawiau meddalwedd feirws proffesiynol trydydd parti er mwyn sicrhau'r amddiffyniad gorau ac uwchraddiadau;<br>• cynhaliwyd rhwydweithiau proffesiynol gweithredol gydag adrannau TGCh mewn gwasanaethau tân ac eraill a chynghorau sir er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd am seiber-ddiogeledd a pholisïau TGCh;<br>• cymryd rhan weithredol yn WRAP (*Warning, Advice and Reporting Point*) er mwyn cyfnewid cyngor cyfoes ar ddiogeledd gwybodaeth, digwyddiadau a datrysiadau;<br>• staff TGCh wedi parhau i wylio'n gyson, a'r polisïau TGCh wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd. |

| Risg | Gwrthfesurau |
|---|---|
| Methu â darparu gwasanaethau craidd na recriwtio a hyfforddi staff newydd yn ddigon cyflym i gynnal y capasiti cyfredol os bydd pandemig feirysol, megis y coronafeirws. | • cydlynu'r gwaith o reoli parhad busnes, gan gynnwys ar lefelau aur ac arian;<br>• cyflwynwyd polisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth i helpu i reoli lledaeniad feirysau, e.e. defnyddio cyfarpar PPE, cadw pellter cymdeithasol, gweithio o gartref ac yn ystwyth;<br>• cymryd rhan weithredol yn y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth a'r Grŵp Cydlynu Strategol, gyda rhagor o drosolwg yn y sector a chraffu drwy Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân. Monitro datblygiadau cenedlaethol a lleol;<br>• addasu rhai agweddau ar waith ataliol ac amddiffynnol, e.e. drwy drafod dros y ffôn;<br>• addasu rhai agweddau ar y gwaith o ddarparu hyfforddiant, e.e. drwy lwyfannau ar-lein. |
| Dim digon o gapasiti corfforaethol i ddarparu cadernid petaem yn sydyn yn colli staff sydd â gwybodaeth arbenigol a/neu brofiad o fusnes y Gwasanaeth. | • cynllunio strwythur y Gwasanaeth yn y dyfodol mewn modd gweithredol er mwyn cynyddu ei gadernid rhag y risg hon;<br>• cynnydd yn y gyllideb ar gyfer 2022/23 er mwyn helpu i gynyddu capasiti corfforaethol;<br>• trefniadau cynllunio olyniaeth yn rhan o gynllun blynyddol yr adran hyfforddi;<br>• darparu gwybodaeth ychwanegol ar wefan y Gwasanaeth ynglŷn â'r pecyn buddion i weithwyr cyflogedig (yn yr adran 'Pam Gweithio i Ni');<br>• cyflwyno polisi gweithio ystwyth i alluogi staff i weithio'n fwy hyblyg;<br>• pwyslais ar symleiddio prosesau i leihau neu osgoi cymhlethdod a phrosiectau helaeth/sy'n defnyddio llawer o adnoddau pan fo modd. |

III. <u>Risgiau Uchel x 9</u>

Canfuwyd bod dwy o'r risgiau Uchel yn debygol o barhau'n Uchel, er y gwrthfesurau isod. Dyma'r ddwy:

| Risg | Gwrthfesurau |
|---|---|
| Camddefnyddio asedau mewn modd terfysgol a/neu droseddol. | • perthynas weithio agos â Heddlu Gogledd Cymru;<br>• cwblhawyd adolygiad o'r diogeledd ar holl safleoedd y Gwasanaeth, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o'r risgiau posibl;<br>• cynhelir archwiliadau o drefniadau diogeledd adeiladau a gweithredwyr gwelliannau;<br>• sefydlwyd Grŵp Diogeledd Safleoedd, a rhoddwyd camau ar waith i wella'r diogeledd;<br>• uwchraddiwyd larymau lladron, a gosodwyd seffiau â chodau allwedd. |

| Risg | Gwrthfesurau |
| --- | --- |
| Lleihad annisgwyl (parhaol neu led-barhaol) yn y staff, gan effeithio ar allu i ymateb mewn argyfwng. | • mae'r gwaith o gynllunio adnoddau yn cynnwys dewisiadau eraill, e.e. y system dyletswydd Amser Cyflawn Gwledig, a phrentisiaethau;<br>• monitro gofynion adnoddau drwy'r Bwrdd Sicrhau Adnoddau Gweithredol o uwch swyddogion er mwyn rhagweld a chynllunio ar gyfer anghenion y dyfodol;<br>• cynlluniau parhad busnes yn bodoli;<br>• canolbwyntio fwy ar recriwtio i swyddi Ar-alwad. |

Drwy gynllunio gwrthfesurau, bydd y pum risg Uchel isod yn gostwng i risgiau Canolig-Uchel.

| Risg | Gwrthfesurau |
| --- | --- |
| Dim digon o arian neu adnoddau i ddarparu gwasanaethau craidd na chynnal systemau risg-gritigol. | • mae prosesau'r ATA o osod y gyllideb a'r strategaeth ariannol yn ystyried y gofynion tebygol ochr yn ochr â'r rhagdybiaethau cynlluniau a'r risgiau sy'n hysbys ar y pryd;<br>• cyflwynir adroddiadau ariannol i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth a'r ATA i'w cymeradwyo;<br>• staff cyllid cymwys yn monitro'r gyllideb yn rheolaidd;<br>• monitro agweddau penodol ar y gwariant yn rheolaidd (e.e. ar gyfer oriau ychwanegol), a'u hadrodd i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth;<br>• darparu hyfforddiant ar reolaeth ariannol i aelodau perthnasol o'r staff;<br>• cyflwynwyd Cynllun Dirprwyo Ariannol yn 2020;<br>• mae rheolau gweithdrefnau contractau yn bodoli;<br>• ceir cyngor ariannol arbenigol fel y bo angen (e.e. ar gyfer treth a rheoli'r trysorlys a chyfraith cyflogaeth);<br>• mae cylch cyfunol ar gyfer cynllunio corfforaethol a chynllunio ariannol yn cyd-fynd â gwaith cynllunio adrannol, sydd yn ei dro yn sail i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. |
| Methu â sicrhau digon o adnoddau gweithredol. | • mae Bwrdd Sicrhau Adnoddau Gweithredol y Gwasanaeth yn monitro gofynion adnoddau'n rheolaidd, ac yna bydd y rheini'n cael eu hystyried gan uwch reolwyr i sicrhau bod recriwtio'n digwydd cyn bod angen;<br>• canolbwyntio fwy ar gynyddu argaeledd criwiau Ar-alwad, gyda chyllideb uwch yn 2022/23 i fynd i'r afael â'r mater hwn fel un o heriau allweddol yr Awdurdod;<br>• gwaith cynllunio gofalus a realistig ar gyfer recriwtio staff gweithredol amser cyflawn, o ystyried bod y broses yn gallu bod yn hir ac yn gofyn am lawer o adnoddau;<br>• rhywfaint o hyblygrwydd i ddyranu adnoddau sydd gennym eisoes i ddarparu cadernid ychwanegol fel y bo'r angen. |

| Risg | Gwrthfesurau |
| --- | --- |
| Dim digon o gapasiti i ddelio â beiciau ychwanegol (a ddaw o'r tu allan), gan gynnwys yr agenda cynaliadwyedd amgylcheddol; | • gall swyddogion gyfrannu at ddeddfwriaeth ddrafft, cyfarwyddyd statudol a fframweithiau cenedlaethol ar gyfer tân ac achub er mwyn codi pryderon megis capasiti'r sector cyhoeddus;<br>• caiff gofynion newydd sy'n esblygu, a'r goblygiadau adnoddau sy'n gysylltiedig â'r rheini, eu hystyried gan Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth;<br>• gellir rhagweld mannau cyfyng i ryw raddau drwy'r broses gynllunio ariannol/corfforaethol fel bod modd dyrannu adnoddau i ddelio â nhw;<br>• rhoddir ystyriaeth ofalus i lefel y gydymffurfiaeth a fyddai'n golygu 'digonolrwydd' yn hytrach na rhagdybio angen i fynd y tu hwnt i'r lefelau cydymffurfiaeth gofynnol;<br>• argaeledd adnoddau a gyhoeddir gan Swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, e.e. pecynnau hunan-ystyried/asesu cymheiriaid er mwyn gwerthuso'r effeithiau. |
| Torri rheolau data personol o dan GDPR. | • staff wedi'u hyfforddi, sydd ag adnabyddiaeth arbenigol o ofynion Deddf Diogelu Data 2018;<br>• caiff mesurau diogelu data eu dylunio yn systemau'r Gwasanaeth;<br>• mae codi ymwybyddiaeth am gyfrifoldeb dros wybodaeth yn orfodol drwy fodiwl ar-lein i'r staff ei gwblhau;<br>• codi ymwybyddiaeth barhaus ychwanegol drwy wybodaeth fewnol i'r staff, a hynny yn electronig drwy'r 'Crynodeb Wythnosol' ac yn bersonol gan y Swyddog Diogelu Data yn y Gwasanaeth;<br>• mae Gwasanaeth wedi llofnodi Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI), a gwneir cofnod o bob achos o rannu gwybodaeth â'r lleill sydd wedi llofnodi;<br>• staff wedi'u henwebu mewn adrannau yn llunio Cofrestrau Asedau Gwybodaeth;<br>• rhoddwyd canllawiau atodol yn ystod COVID 19 i atgoffa'r staff i sicrhau bod yr holl ddulliau diogelu yn gyfoes ar ddyfeisiau'r Gwasanaeth. |
| Tarfu ar berthnasoedd a sefydlwyd gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol; | • Cynhelir perthnasoedd gweithio â sefydliadau sy'n bartneriaid i ni, ac anogir trafodaethau agored ynghylch cynlluniau a bwriadau;<br>• rhwydweithiau proffesiynol a sganio'r gorwel yn barhaus ynghylch diwygiadau posibl mewn llywodraeth leol. |

Bydd dwy risg Uchel yn gostwng i Ganolig-Isel drwy'r gwrthfesurau isod.

| Risg | Gwrthfesurau |
|---|---|
| Effaith(effeithiau) proffil gweithlu sy'n heneiddio. | • mae'r Gwasanaeth yn hyrwyddo heneiddio'n iach drwy gefnogi ac annog y staff (gan gynnwys gyda chymorth ymgynghorwyr ffitrwydd llawn-amser) i gadw ffordd iach o fyw a safon dda o ffitrwydd;<br>• darperir gwasanaethau iechyd galwedigaethol a chyfarpar ffitrwydd i'r staff;<br>• darperir pecyn cynhwysfawr o gymorth, gan gynnwys cyfleusterau ar y we ac ar-lein;<br>• mae Panel Rheoli Presenoldeb y Gwasanaeth yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu achosion unigol o salwch hirdymor ac i ystyried y ffyrdd gorau o annog a chefnogi staff i ddychwelyd yn ddiogel ac amserol i'r gwaith;<br>• profi ffitrwydd staff yn helpu i ganfod problemau iechyd;<br>• darparu canllawiau i gefnogi staff a'u rheolwyr llinell gyda materion yn ymwneud â phroffil gweithlu sy'n heneiddio. |
| Methu â chynnal gweithlu digon ffit ac iach i ddarparu gwasanaethau. | • monitro proffil y gweithlu'n ofalus, a'r lefelau ffitrwydd a salwch;<br>• cynllunio olyniaeth a llwybrau ar gyfer amcanion dilyniant y gweithlu;<br>• caiff y staff eu cefnogi a'u hannog i gael ffordd o fwy iach a safon dda o ffitrwydd, cymorth arbenigol ac arweiniad gan ymgynghorwyr ffitrwydd llawn-amser;<br>• darperir gwasanaethau iechyd galwedigaethol, gan brofi ffitrwydd yn rheolaidd. Mae cyfarpar ffitrwydd ar gael hefyd i'r staff eu defnyddio;<br>• mae pecyn cynhwysfawr o gymorth yn ymwneud ac iechyd ar gael i'r staff, gan gynnwys drwy gyfleusterau ar y we ac ar-lein;<br>• gwaith Panel Rheoli Presenoldeb y Gwasanaeth (fel uchod). |

IV. <u>Risg Canolig-Uchel x 7</u>

Mae pump o'r risgiau Canolig-Uchel yn ymwneud â'r canlynol: effaith newidiadau i drefniadau llywodraethu i ATAau yng Nghymru; anaf difrifol i aelod o'r staff wrth ei waith; oedi yn y prosiect cysylltiadau cenedlaethol arfaethedig; dim digon o arian grant i barhau i ddarparu gweithgareddau atal tân; y risgiau sy'n gysylltiedig ag arallgyfeirio gwasanaethau. Drwy gynllunio gwrthfesurau, rhagwelir y bydd y rhain yn aros yn risgiau Canolig-Uchel oherwydd eu natur a'u difrifoldeb posibl, a'r siawns cyfyngedig o ragor o wrthfesurau.

Mae dwy o'r saith o risgiau Canolig-Uchel yn debygol o ostwng i lefel Canolig-Isel ar ôl gwrthfesurau, sef cymryd rhan mewn prosiectau partneriaethol a chynnal cysondeb gweithredol â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yn y DU; a'r gallu i gofnodi ac adrodd ynghylch sgiliau gweithwyr yr ochr weithredol.

V. <u>Risg Canolig-Isel x 4</u>

Canfuwyd pedair risg Canolig-Isel. Yn gryno, mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol: gwneud penderfyniadau aneffeithiol neu ddiffygiol ar lefel yr Awdurdod; cyfathrebu corfforaethol aneffeithiol; methu â rhagweld a delio â phroblemau mewn da bryd; a'r effaith y byddai streic neu weithredu diwydiannol yn ei chael ar wasanaethau.

Drwy gynllunio gwrthfesurau, byddai tair o'r risgiau'n aros ar lefel Canolig-Isel, a byddai un yn gostwng i lefel risg Isel.